



Diweddaru'r Strategaeth ar Gyfer Gofalwyr yng Nghymru

Ymateb gan Dyfodol i'r Iaith

Ionawr 2013

# Ymateb gan Dyfodol i'r Iaith

Mae Dyfodol i'r iaith yn fudiad amhleidiol sy'n gweithredu er lles yr iaith Gymraeg. Nod y mudiad yw dylanwadu drwy ddulliau cyfansoddiadol ar sylwedd a chynnwys polisiâu cyhoeddus a deddfwriaeth er mwyn hybu twf a ffyniant y Gymraeg ym mhob maes polisi. Bydd yn gweithredu er budd Cymru a'i phobl, gan ennill cefnogaeth a pharch i'r iaith a sicrhau bod y Gymraeg yn fater byw ar yr agenda gwleidyddol.

Mae Dyfodol i'r iaith yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r Ddogfen Ymgynghori: Diweddarau'r Strategaeth ar Gyfer Gofalwyr yng Nghymru. Gallwn groesawu hanfod y Strategaeth ddrafft fel cam pwysig i sicrhau lles gofalwyr yng Nghymru.

Serch hynny, rydym yn siomedig tu hwnt nad oes unrhyw gyfeiriad yn y ddogfen at faterion yn ymwneud â iaith a'r angen i sicrhau bod gofalwyr yn gallu cael gwybodaeth, asesiad, gofal, gwasanaeth a'r parch y mae nhw'n ei haeddu yn y Gymraeg, neu yn ddwyieithog, yn ôl eu dymuniad a'u hangen personol. Rydym yn argymhell fod angen gwneud anghenion iaith yn hysbys, yn hytrach na chymryd yn ganiataol y byddant yn amlwg o fewn cyd-destun sy' sôn am drin pobl â pharch, hwyluso cyfranogi i benderfyniadau, asesu a diwallu anghenion gofalwyr yn briodol, a darparu cymorth a chefnogaeth ymarferol ac emosiynol priodol i ofalwyr yn ôl eu hangen.

Mae profiad yn dangos nad yw dinasyddion sydd angen gwasanaethau Cymraeg neu ddwyieithog yn cael eu cynnig fel mater o gwrs, fel y dylai fod, a'u bod yn aml yn swil i ofyn am hynny. Mae hyn yn aml oherwydd diffyg gwybodaeth neu ddealltwriaeth ar ran darparwyr. Dylid yn ogystal felly sicrhau bod y cwestiwn o iaith yn cael ei godi ar y cyswllt cyntaf gyda dinasyddion, a bod hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn orfodol i ddarparwyr. Mae Mwy Na Geiriau (Llywodraeth Cymru, 2012) yn argymhell mai ar y gwasanaeth mai'r cyfrifoldeb i gynnig gwasanaeth, yn hytrach na disgwyl i'r dinesydd bregus ofyn am hyn.

Argymhellwn gofnodi'r ieithoedd a ddefnyddir gan y claf/cleient fel rhan o'r wybodaeth bersonol sy'n rhan o lythyr cyfeirio (hynny yw: enw, cyfeiriad, dyddiad geni, rhif ysbyty, ieithoedd a ddefnyddir). Mae modd felly cynllunio natur ieithyddol gwasanaeth ymlaen llaw, ac ymateb i glaf/gleient sy'n defnyddio Cymraeg/Saesneg yn ôl y wybodaeth a rennir wrth gyfeirio, gyda staff sydd hefyd yn ddwyieithog.

## Cwestiwn 1:

### A ydym wedi nodi'r canlyniadau cywir ar gyfer gofalwyr yng Nghymru?

Fel y soniwyd eisoes, mae angen gwneud anghenion iaith yn hysbys, yn hytrach na chymryd yn ganiataol y byddant yn cael eu ystyried o dan benawdau eraill.

Argymhellwn gynnwys bwynt bwled ychwanegol ar dudalen 6, o dan y pennawd:

## **Canlyniadau i ofalwyr**

1.9. Dyma'r prif ganlyniadau yr ydym am eu sicrhau i ofalwyr:

- *bod trefn briodol ar gael er mwyn deall pwy yw'r gofalwyr, a'u bod yn cael yr wybodaeth a'r cyngor cywir ar yr adeg iawn;*
- *bod pobl yn gwrando ar ofalwyr, eu bod yn cael eu trin â pharch ac yn cael cydnabyddiaeth briodol;*
- *nad yw gofalwyr yn cael eu rhoi o dan anfantais ac nad oes neb yn gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd eu bod yn ysgwyddo rôl gofalu;*
- *bod gofalwyr yn ymwneud o ddifrif â phob penderfyniad sy'n effeithio arnynt ac ar y bobl y byddant yn gofalu amdanynt (gan gynnwys cynllunio strategol, darparu a gwerthuso gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol);*
- *bod anghenion gofalwyr yn cael eu hasesu a'u diwallu'n briodol;*
- *bod gofalwyr yn cael cymorth a chefnogaeth ymarferol ac emosiynol priodol ar yr adeg pan fydd angen hynny arnynt*

A'n hawgrym ni fel a ganlyn:

- Bydd angen ystyried anghenion iaith gofalwyr er mwyn eu trin â pharch; er mwyn sicrhau gwybodaeth a chyfranogaeth briodol; asesu a diwallu anghenion yn gywir; ac er mwyn sicrhau bod gofalwyr yn derbyn cymorth a chefnogaeth ymarferol ac emosiynol ar yr adeg pan fo'u hangen arnynt. Yng Nghymru, mae hyn yn golygu fod angen sicrhau gwasanaethau a gweithdrefnau dwyieithog, gan fod angen trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.